Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Cynorthwyydd Glanhau | Lleoliad: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| Adran: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog | Cyflog: | Gweithredol 1: £22,932 y flwyddyn (pro rata) / £12.60 yr awr |
| Oriau Gwaith: | Llawn amser (35 awr yr wythnos) neu ran amser | Cytundeb: | Parhaol |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Cegin a Glanhau | Rheolaeth Llinell: | Dim |

Prif bwrpas y swydd:

Bydd angen i'r cynorthwyydd glanhau  ymgymryd ag amryw o ddyletswyddau cadw tŷ a glanhau ar gyfer darparu gwasanaeth cyflawn.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

- Glanhau ystafelloedd llety Llangrannog ac unrhyw ardal ddynodedig i safon uchel.
- Cadw trefn a thacluso stordai glanhau / Golchdy / Cemegau - ailgyflenwi stoc.
- Chwarae rhan hanfodol i gynnal lefelau uchel o lanweithdra yn y Gwersyll.
- Gweithio o fewn terfynau amser.
- Darparu gofal cwsmer da.
- Hysbysu'r Rheolwr a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw. Os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
- Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn ôl y gofyn, a chymryd cyfrifoldeb am ddysgu a datblygiad personol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr.

---

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid darparu CV a llythyr eglurhaol gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| • Profiad o weithio fel rhan o dîm / neu ar liwt eu hunan<br>• Agwedd egnïol a brwdfrydig tuag at waith<br>• Sgiliau cyfathrebu da<br>• Parodrwydd i fod yn hyblyg ar achlysuron am amserau shift<br>• Oherwydd natur y busnes mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol | • Profiad o weithio mewn maes glanhau<br>• Cymwysterau neu ymwybyddiaeth o reolau Iechyd a Diogelwch / COSHH |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ionawr 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gwiriadau Perthnasol: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).